Warm This Winter

Background

Climate Cymru is an active network of over three hundred partner organisations from every sector in Welsh society, and a movement of over 14,000 individuals from across Wales who are concerned about climate change. Warm This Winter is a UK-wide campaign supported by leading anti-poverty and environmental organisations calling on the UK government to provide more emergency support for people struggling with energy bills this winter and a coherent plan to move the UK away from fossil fuels, through a rollout of home insulation and affordable renewables. Climate Cymru is running a sister Warm this Winter campaign in Wales.

Summary of the campaign

We are in the grips of multiple crises – the cost-of-living crisis, energy crisis, and the climate and nature emergencies. These crises are connected and intertwined. They have shared causes and solutions. Emergency support is needed for the most vulnerable. Beyond that, the best solutions for a genuine pathway out of the cost-of-living crisis are also key steps to addressing energy security and the climate crisis – like a rapid scale up of energy efficiency and rolling out community energy all over Wales. The financial case for these programs is also compelling.

The energy crisis did not happen overnight and could have been avoided if action on energy efficiency and renewables had been taken decades ago. Unless we take urgent and informed action now, short term or false solutions risk locking us into the worsening impacts of climate change and future energy crises.

The Welsh Government and other institutions need to act urgently to ensure that solutions to address the cost-of-living emergency also address the climate and nature emergencies. Levers that are within our control need to be used to support vulnerable households, and to prioritise renewables and energy efficiency schemes.

The Warm this Winter campaign in Wales would like Welsh Government to deliver:

1. **Emergency support for vulnerable households**
2. **An ambitious energy efficiency programme**
3. **A rapid scale-up of low-cost renewables**
4. **Free us from fossil fuels**

The Climate Cymru network, and other organisations behind the Warm this Winter campaign, are ready to work productively with the Welsh Government to make these things happen, both on building them into policy, and on rolling them out to the wider public.

1. Emergency support for vulnerable households

Energy bills have continued to rise since Ofgem's price cap was raised by 54% in April 2022. Meanwhile, inflation has soared to a 30 year high and the UK is facing the biggest fall in living standards since records began. For many low-income households, energy bills were already unaffordable, but now millions more are being plunged into fuel poverty.The UK Government has announced a cut in the support available to households in fuel poverty for winter 2023. While the Energy Price Guarantee will continue to cap the unit cost of energy, all energy bills will increase from 1 April 2023 – at the same time as the Energy Bills Support Scheme finishes.

The final increase will depend on energy prices, which have fallen in recent months, but currently predictions range from a 12% to 20% increase.

In 2022/23, the most vulnerable households were given support of up to £1,500. According to media reports, for 2023/24 the figure reduces to £1,350. A 10% cut in support.

These changes come on top of additional increases in energy costs which many Economy 7 customers saw on their bills from 1 January 2023. Support in 2023/24 for households not on means-tested benefits and those living in "off gas grid" properties have also yet to be confirmed by the UK Government.

A key issue is how the UK government intends to pay for this. The abolition of green levies and no further windfall tax on energy companies effectively increases government subsidy to fossil fuel companies at the expense of cleaner energy production, and future taxpayers who will be picking up the bill for decades. The original windfall tax imposed on energy companies, which could have gone a long way to support households, instead offered around 90% back in subsidies to fossil fuel companies to encourage expansion of oil and gas in the North Sea. This is far from sensible in a cost-of-living and climate emergency, especially given Kwasi Kwarteng himself admitted it will do nothing to reduce bills or improve energy security. It is an expensive sticking plaster without any meaningful means to address the root of the problem.

The Wellbeing of Future Generations Act in Wales obliges the public sector to deliver sustainable development: meeting the needs of current generations without compromising the ability of future generations to meet their own needs. We need to think long-term, prevent future crises, and involve people in policy making.

We welcome Welsh Government initiatives to alleviate the cost of living crisis including the £150 Cost of Living payment, a second £200 Welsh Fuel Support Scheme payment, additional funding to the Discretionary Assistance Fund, a £4m national Fuel Voucher Scheme and a £1m 'warm banks' fund . We support the implementation and roll out of such schemes and will try to do our part to help ensure those that most need it access this support.

We would like Welsh Government to go further by:

- Adjusting the current Nest scheme so that people living on the lowest incomes in the least energy efficient homes qualify for support to insulate their homes in a way which is quick and easy to access.

- Introducing free, or heavily subsidised, public transport for everyone for the period of the emergency and possibility of full implementation in the future.

- Accelerating the roll out of free school meals, sourcing food locally and responsibly.

- Extending free childcare to children aged two.

- It is a longer term safety net, rather than immediate support, but a range of Climate Cymru partners are urging support for the Back the Bill Right to affordable Housing legislation.

- We would like the Welsh Government to go further by bringing forward legislation to fully incorporate the Right to Adequate Housing into Welsh law which would provide a legal framework in which to provide everyone in Wales with a safe, sustainable and affordable place to call home, including fair and affordable rents and energy costs.

- Directly supporting workers in low paid sectors, for example social care and supporting the living wage campaign.

- Providing support for people experiencing poverty due to their role as carers, for example giving *all* unpaid carers cost of living financial support, not just the estimated 10% of unpaid carers who are in receipt of carers allowance.

- Providing automatic referral to energy efficiency schemes for vulnerable households.

- Establishing a system for the administration of benefits in Wales to make the series of devolved grants and allowances that already exist here (Free School Meals, Council Tax Reduction Scheme) work better, by bringing them together into one cohesive system. Further research is needed on the system in place in Scotland for the administration of their benefits, and work towards proposing a Welsh Benefits System as proposed by the Bevan Foundation.

    - We believe that forcing people on to prepayment meters should be banned, as it is perpetuating poverty for many of the most vulnerable in society, especially due to the fact that once someone is on a prepayment meter they have to pay a much higher electricity rate. To that end, we welcome the Senedd's Petitions Committee newly launched inquiry into the scandal following a petition we initiated. We wish for the committee to engage with Welsh citizens on how they have been affected and present their findings to the Welsh Government to take forward accordingly.
    - We understand that recent changes have been made to prepayment meters on a UK level which we welcome, but the standing charges are still applicable. We

welcome the new phone line for those with pre payment meters to raise concerns, initiated by Ofgem and Citizens Advice, and urge people to contact them directly.

Welsh Government should also join us in lobbying the UK Government to:

Make up the shortfall that low-income and vulnerable households face between the levels of support already committed and the overall rise in the cost of living in the year to April 2023. The fastest and most efficient way to achieve additional support would be through further payments through the social security system.

Raise funds for these measures by imposing a genuine windfall tax on energy companies' profits, and scrapping incentives to scale up extraction of fossil fuels.

To end the forced installation of prepayment meters, and to demand that the UK Government tells energy companies to change its practices, and strengthens regulating powers.

2. An ambitious energy efficiency programme

Wales has some of the most leaky, energy inefficient homes in the UK, with the oldest housing stock and the lowest proportion of dwellings with an EPC rated 'C' or above. The Welsh Government is committed to introducing a new version of the Warm Homes programme to support fuel poor households and energy efficiency schemes in Wales, with a statement from the Climate Change Minister due later this year on the next iteration of the programme. We urgently need more action to stop our homes leaking heat and to keep people warm. According to estimates from the Child Poverty Action Group, 60.8% of Welsh households will be in fuel poverty by January 2023 up from 14% in October 2021. Welsh Government estimates an increase in fuel poverty to 45% of Welsh Households from 1st April 2022.

Retrofitting and insulating homes protect people from rising fuel bills and make homes warmer, which is particularly important for those living in fuel poverty and who struggle with poor health.

We call on the Welsh Government to:

- Urgently introduce an ambitious Warm Homes Programme for Wales at the scale and pace needed. This should target the worst impacted households first, prioritise improving the fabric of the house with energy efficiency measures, and

combine a street-by-street approach and on-demand support for vulnerable households wherever they are.
- Ensure all new housing in Wales is built to the highest standard of efficiency possible.
- Further support community energy companies who reinvest their profits into energy efficiency programmes.
- Produce good quality, easy to access information and advice on support and grants available, outlining the typical savings and upfront costs. This should provide a central hub for the public to access support for their homes (based on a postcode search)
- Provide a mechanism to low, or zero percent, support loans for people to access to enable them to install energy efficiency measures in their homes, along the lines of that which may be accessed via the Robert Owen Community Bank for residents in Powys and Rhondda Cynon Taff.

We welcome the Welsh Government Winter Fuel Campaign, which seeks to signpost people where to go for support. We wish to ensure that we communicate with the Welsh Government at an appropriate time to enquire as to the effectiveness of this campaign, and its impact on the people of Wales.

Welsh Government should also join us in lobbying the UK Government to:

- Increase the devolved budget to enable delivery of a scaled up home insulation programme which will offer net-savings to the UK treasury in only a few years.

3. A rapid scale-up of low-cost renewables

Homegrown renewable energy like solar and wind energy are now much cheaper than electricity from fossil fuels. For example, this report demonstrating offshore wind is now more than nine times cheaper than gas. In Wales, we have excellent examples of companies producing renewable energy locally to benefit people in our communities. This helps Wales and UK's energy security and independence, it cuts the cost of energy production in both short and long term and the schemes are community owned, ensuring profits go to Welsh communities instead of multinational energy companies.

We call on Welsh Government to:

- Set up Ynni Cymru in collaboration with civil society and interested partners in Wales, and to explore where further devolved powers are needed to enable Wales to use its own renewable energy sources. We support the establishment of the publicly owned renewable energy company, but we will like wider community involvement in setting this up.
- Support recommendations in the Institute for Welsh Affairs report ' A plan for Wales' renewable energy future'
- Implement a renewables workforce plan to equip Welsh people with the skills we require for the industry to thrive.
- Improve funding for research and development in Wales as without sufficient funding, Higher Education Institutions here will not be able to compete with HEI's elsewhere to develop new advances in sustainable technologies.
- Ensure that the roll-out of renewables is in harmony with nature to minimise any negative impacts.
- Scale up and support community renewable projects, and allow them to sell energy locally, so that the profits and benefits go to communities.
- Urgently develop and implement a commitment to net zero by 2035, including scaling up renewables.
- Implement a clear plan for expanding and developing low carbon heating in Wales.

Welsh Government should join us in Lobbying the UK Government to-

- Formulate views on the reform of the energy market alongside partners in Wales, and communicate the conclusions to the UK Government.

· Support Power for People in lobbying Westminster on the Local Electricity Bill. The Bill is to enable electricity generators to become local electricity suppliers.

4. Free us from fossil fuels

As global gas markets soar, people and businesses across the country are being directly impacted by the UK's reliance on expensive fossil fuels. At the same time, the investment allowance in the Energy Profits Levy (windfall tax) and other tax loopholes are depriving the UK economy of vital income. The UK-wide campaign is calling on the UK government to stop opening new oil and gas fields, including new licensing rounds, and stop subsidising new drilling with public money. Wales has a leadership role to play, especially as it is part of the Beyond Oil and Gas Alliance. The Welsh Government should seek to work with the UK Government to build a cheaper and more secure renewable energy supply. We require consistent, sustained action from the Welsh Government to show leadership and ensure a just transition for workers in industries currently reliant on fossil fuels. We also need a culture change towards self-reliance without fossil fuels, a closer relationship to the sources of our energy.

We call on the Welsh Government to:

- End the extraction, extension, and expansion of coal in Wales, and commit to using its veto powers to stop any proposal or application for coal in Wales.
- Not issue any further licences, or extension of licenses for gas or oil and to continue its clear and comprehensive opposition to any fracking in Wales.

Welsh Government should also join us in lobbying the UK Government to:

- Ensure Wales gets its fair share of funding based on need, as households in Wales are hit hardest by the energy crisis.
- Urgently impose a windfall tax on oil and gas companies to help finance support for the most vulnerable households and ensure that ordinary people, and our children, are not picking up the bill for the significant sums of public money going to energy companies under the Energy Price Guarantee Scheme.

*More information about **Warm this Winter Wales** contact Bethan Sayed on bethan@climate.cymru, check the website and follow on Twitter, Instagram & Facebook. #WarmThisWinter, #ClimateCymru*

Cynnes Gaeaf Yma

Cefndir

Mae Climate Cymru yn rhwydwaith gweithredol o dros 300 o sefydliadau partner o bob sector yn y gymdeithas Gymreig, ac yn fudiad o dros 14,000 o unigolion o bob rhan o Gymru sy'n pryderu am newid hinsawdd. Mae Cynnes Gaeaf Yma yn ymgyrch ledled y DU sydd yn cael ei gefnogi gan sefydliadau gwrthdlodi ac amgylcheddol blaenllaw, sydd yn galw ar lywodraeth y DU i ddarparu mwy o gymorth brys i bobl sy'n cael trafferth gyda biliau ynni y gaeaf hwn a chynllun cydlynol i symud y DU i ffwrdd o danwydd ffosil, drwy insiwleiddio cartrefi a chyflwyno ynni adnewyddadwy fforddiadwy. Mae Climate Cymru yn cynnal chwaer ymgyrch Cynnes Gaeaf Yma yng Nghymru.

Crynodeb o'r ymgyrch

Rydym yng nghanol sawl argyfwng – yr argyfwng costau byw, yr argyfwng ynni, a'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r argyfyngau hyn yn gysylltiedig, ac wedi'u cydblethu. Mae ganddynt achosion ac atebion a rennir. Mae angen cymorth brys ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed, ond neges allweddol y tu hwnt i hynny yw bod yr atebion gorau ar gyfer llwybr gwirioneddol allan o'r argyfwng costau byw hefyd yn gamau allweddol i fynd i'r afael â diogelwch ynni a'r argyfwng hinsawdd - pethau fel cynyddu effeithlonrwydd ynni yn gyflym, ar raddfa fawr, a chyflwyno ynni cymunedol ledled Cymru. Mae'r achos ariannol ar gyfer y rhaglenni hyn yn gymhellol hefyd.

Ni ddigwyddodd yr argyfwng ynni dros nos, a gellid bod wedi'i osgoi pe bai camau brys wedi'u cymryd ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy ddegawdau yn ôl. Oni bai ein bod yn cymryd camau brys a gwybodus nawr, bydd atebion tymor byr neu ffug yn peri'r risg o'n cloi i mewn i effeithiau gwaeth newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau ynni yn y dyfodol.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill weithredu ar frys i sicrhau bod atebion i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur hefyd. Mae angen defnyddio ysgogiadau sydd o fewn ein rheolaeth i gefnogi cartrefi bregus, ac i flaenoriaethu ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni.

Hoffai yr ymgyrch Cynnes Gaeaf Yma yng Nghymru i Lywodraeth Cymru sicrhau'r canlynol:

1. **Cefnogaeth frys i aelwydydd bregus**
2. **Rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol**
3. **Cynnydd cyflym o ynni adnewyddadwy cost isel**
4. **Ein rhyddhau ni rhag tanwyddau ffosil**

Mae rhwydwaith Climate Cymru a sefydliadau eraill sydd y tu ôl i'r ymgyrch Cynnes Gaeaf Yma, yn barod i weithio'n gynhyrchiol gyda Llywodraeth Cymru i wneud i'r pethau hyn ddigwydd, ac i'w cynnwys mewn polisi a'u cyflwyno i'r cyhoedd yn gyffredinol.

1. Cefnogaeth frys i aelwydydd bregus

Mae biliau ynni wedi parhau i godi ers i gap prisiau Ofgem godi 54% ym mis Ebrill 2022. Yn y cyfamser, mae chwyddiant wedi codi i'r lefel uchaf ers 30 mlynedd ac mae'r DU yn wynebu'r gostyngiad mwyaf mewn safonau byw ers i gofnodion ddechrau. I lawer o aelwydydd incwm isel, roedd biliau ynni eisoes yn anfforddiadwy, ond erbyn hyn mae miliynau o bobl yn cael eu gwthio i dlodi tanwydd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi toriad yn y cymorth sydd ar gael i aelwydydd mewn tlodi tanwydd ar gyfer gaeaf 2023. Tra bydd y Warant Pris Ynni yn parhau i gapio cost uned ynni, bydd yr holl filiau ynni yn cynyddu o 1 Ebrill 2023 – ar yr un pryd ag y daw'r Cynllun Cymorth Biliau Ynni i ben.

Bydd y cynnydd terfynol yn dibynnu ar brisiau ynni, sydd wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf, ond ar hyn o bryd mae'r rhagfynegiadau'n amrywio o gynnydd o 12% i 20%.

Yn 2022/23, rhoddwyd cymorth o hyd at £1,500 i'r aelwydydd mwyaf agored i niwed. Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau, ar gyfer 2023/24 bydd y ffigwr yn gostwng i £1,350. Toriad o 10% yn y gefnogaeth.

Daw'r newidiadau hyn ar ben y cynnydd ychwanegol mewn costau ynni a welodd llawer o gwsmeriaid Economi 7 ar eu biliau o 1 Ionawr 2023. Dydi cefnogaeth yn 2023/24 i aelwydydd nad ydynt ar fudd-daliadau prawf modd a'r rhai sy'n byw mewn eiddo "oddi ar y grid" ei gadarnhau eto gan Lywodraeth y DU.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy: diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae angen inni feddwl dros y tymor hir, atal argyfyngau yn y dyfodol, a chynnwys pobl wrth lunio polisïau.

Rydym yn croesawu mentrau Llywodraeth Cymru i liniaru'r argyfwng costau byw gan gynnwys y taliad Costau Byw o £150 i bawb, ail daliad Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru o £200, cyllid ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol, swm cenedlaethol gwerth £4m fel rhan o'r Cynllun Talebau Tanwydd, a chronfa 'banciau cynnes' gwerth £1m . Rydym yn cefnogi gweithredu a chyflwyno cynlluniau o'r fath, a byddwn yn ceisio gwneud ein rhan i helpu i sicrhau bod y rhai sydd ei angen fwyaf yn cael mynediad at y cymorth hwn.

Hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach drwy gyflawni'r canlynol:

· Addasu cynllun presennol Nyth fel bod pobl sy'n byw ar yr incwm isaf yn y cartrefi lleiaf ynni-effeithlon yn gymwys i gael cymorth i insiwleiddio eu cartrefi mewn ffordd gyflym a hawdd ei ddefnyddio.

· Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim, neu â chymhorthdal sylweddol, i bawb yn ystod cyfnod yr argyfwng a'r posibilrwydd o'i ddarparu'n llawn yn y dyfodol.

· Cyflymu'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim, defnyddio bwyd lleol, yn gyfrifol.

· Ymestyn gofal plant am ddim i blant dwy oed.

· Rhwydwaith diogelwch tymor hirach ydyw, yn hytrach na chefnogaeth uniongyrchol, ond mae ystod o bartneriaid Climate Cymru yn annog cefnogaeth tuag at ddeddfwriaeth 'Back the Bill' dros yr hawl am Dai Fforddiadwy.

· Hoffem i Lywodraeth Cymru fynd ymhellach drwy gyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol yng nghyfraith Cymru a fyddai'n darparu fframwaith gyfreithiol i ddarparu lle diogel, cynaliadwy a fforddiadwy i bawb yng Nghymru ei alw'n gartref. gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwy a chostau ynni.

· Cefnogi gweithwyr mewn sectorau cyflog isel yn uniongyrchol, er enghraifft gofal cymdeithasol a chefnogi'r ymgyrch cyflog byw.

· Darparu cymorth i bobl sy'n profi tlodi oherwydd eu rôl fel gofalwyr, er enghraifft rhoi cymorth ariannol costau byw i bob gofalwr di-dâl, nid dim ond yr amcangyfrif o 10% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn lwfans gofalwr.

· Darparu atgyfeirio awtomatig at gynlluniau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd sy'n agored i niwed.

· Sefydlu system ar gyfer gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru i wneud i'r gyfres o grantiau a lwfansau datganoledig sydd eisoes yn bodoli yma (Cinio Ysgol Rhad ac Am Ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) weithio'n well, a'u dwyn ynghyd mewn un system gydlynol. Mae angen ymchwil pellach ar y system sydd yn ei lle yn yr Alban ar gyfer gweinyddu eu budd-daliadau, a gweithio tuag at gynnig System Fuddiannau Cymreig fel y cynigiwyd gan Sefydliad Bevan.

·Credwn y dylid gwahardd gorfodi pobl i ddefnyddio mesuryddion rhagdalu, gan ei fod yn bytholi tlodi i lawer o'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn enwedig oherwydd y ffaith bod yn rhaid i bobl dalu cyfradd drydan uwch o lawer pan fydd rhywun

ar fesurydd rhagdalu. I'r perwyl hwnnw, rydym yn falch bod Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn cynnal ymchwiliad i'r sgandal, ac yn erfyn arnynt i ymgysylltu â dinasyddion Cymru ar sut yr effeithiwyd arnynt, a chyflwyno eu canfyddiadau i Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â hynny.

Rydym yn deall bod newidiadau diweddar wedi'u gwneud i fesuryddion rhagdalu ar lefel y DU ac rydym yn eu croesawu, ond mae'r taliadau sefydlog dal yn berthnasol. Rydym yn croesawu'r llinell ffôn newydd ar gyfer y rhai sydd â mesuryddion rhagdalu i godi pryderon, a gychwynnwyd gan Ofgem a Chyngor ar Bopeth, ac rydym yn annog pobl i gysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Dylai Llywodraeth Cymru ymuno â ni hefyd i lobïo Llywodraeth y DU i gyflawni'r canlynol:

- Gwneud yn iawn am y diffyg y mae aelwydydd incwm isel ac agored i niwed yn ei wynebu rhwng y lefelau cymorth sydd wedi cael eu hymrwymo'n barod a'r cynnydd cyffredinol mewn costau byw yn y flwyddyn hyd at Ebrill 2023. Y ffordd gyflymaf a mwyaf effeithlon o sicrhau cymorth ychwanegol fyddai drwy ragor o daliadau drwy'r system nawdd cymdeithasol.

- Codi arian ar gyfer hyn drwy osod treth ffawdelw gwirioneddol ar elw cwmnïau ynni, a sgrapio mentrau i gynyddu echdynnu tanwyddau ffosil.

2. Rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol

Mae gan Gymru rai o'r cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni sy'n gollwng fwyaf yn y DU, gyda'r stoc tai hynaf a'r gyfran isaf o anheddau sydd â sgôr EPC o 'C' neu uwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno fersiwn newydd o'r rhaglen Cartrefi Clyd i gefnogi'r teuluoedd mwyaf bregus o ran ynni a chynlluniau effeithlonrwydd ynni yng Nghymru, gyda datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni ar gam nesaf y rhaglen. Rydym angen mwy o weithredu ar frys i atal ein cartrefi rhag gollwng gwres ac i gadw pobl yn gynnes. Yn ôl amcangyfrifon gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, bydd 60.8% o gartrefi Cymru mewn tlodi tanwydd erbyn Ionawr 2023, i fyny o 14% ym mis Hydref 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif cynnydd mewn tlodi tanwydd i 45% o Aelwydydd Cymru o 1 Ebrill 2022.

Mae ôl-osod ac insiwleiddio cartrefi yn amddiffyn pobl rhag biliau tanwydd cynyddol ac yn gwneud cartrefi'n gynhesach, sy'n arbennig o bwysig i'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd ac sy'n cael trafferth gydag iechyd gwael.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni'r canlynol:

- Cyflwyno Rhaglen Cartrefi Cynnes uchelgeisiol i Gymru ar frys, ac ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen. Dylai hyn dargedu'r aelwydydd yr effeithir arnynt waethaf yn gyntaf, rhoi blaenoriaeth i wella ffabrig tai, â mesurau effeithlonrwydd ynni, a chyfuno dull fesul stryd a chymorth ar-alw i aelwydydd sy'n agored i niwed lle bynnag y bônt.
- Sicrhau bod yr holl dai newydd yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i'r safon effeithlonrwydd uchaf posibl.
- Cefnogi cwmnïau ynni cymunedol sy'n ail-fuddsoddi eu helw mewn rhaglenni effeithlonrwydd ynni.
- Cynhyrchu gwybodaeth a chyngor o ansawdd da sy'n hawdd cael gafael arno ar y cymorth a'r grantiau sydd ar gael, gan amlinellu'r arbedion nodweddiadol a'r costau ymlaen llaw. Dylai hyn ddarparu canolbwynt canolog i'r cyhoedd gael mynediad at gymorth ar gyfer eu cartrefi (yn seiliedig ar chwiliad cod post)
- Darparu mecanwaith i gefnogi benthyciadau canran isel, neu sero, i bobl gael mynediad iddynt i'w galluogi i osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi, yn debyg i'r hyn y gellir ei gyrchu drwy Fanc Cymunedol Robert Owen ar gyfer trigolion ym Mhowys a Rhondda Cynon. Taf.

Rydym yn croesawu Ymgyrch Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio cyfeirio pobl at ble i fynd am gymorth. Rydym am sicrhau ein bod yn cyfathrebu â Llywodraeth Cymru ar adeg briodol i holi ynghylch effeithiolrwydd yr ymgyrch hon, a'i heffaith ar bobl Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru ymuno â ni hefyd i lobïo Llywodraeth y DU i gyflawni'r canlynol:

- Cynyddu'r gyllideb ddatganoledig i alluogi cyflwyno rhaglen insiwleiddio cartrefi ar fwy a fydd yn cynnig arbedion net i drysorlys y DU mewn ychydig flynyddoedd yn unig.

3. Cynnydd cyflym o ynni adnewyddadwy cost isel

Mae ynni adnewyddadwy cartref fel ynni'r haul a gwynt bellach yn llawer rhatach na thrydan o danwydd ffosil. Er enghraifft, mae'r adroddiad hwn ar wynt ar y môr dros naw gwaith yn rhatach na nwy. Yng Nghymru, mae gennym enghreifftiau gwych o gwmnïau yn gweithio i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol er budd pobl yn ein cymunedau. Mae hyn yn helpu diogelwch ynni ac annibyniaeth Cymru a'r DU, mae'n torri'r gost o gynhyrchu ynni yn y tymor hir a'r tymor byr, ac mae'r cynlluniau dan berchnogaeth y gymuned, sydd yn sicrhau bod elw yn mynd i gymunedau Cymru yn lle cwmnïau ynni rhyngwladol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni'r canlynol:

- Sefydlu Ynni Cymru mewn cydweithrediad â chymdeithas sifil a phartneriaid sydd â diddordeb yng Nghymru, ac i archwilio lle mae angen pwerau datganoledig pellach i alluogi Cymru i ddefnyddio ei ffynonellau ynni adnewyddadwy ei hun. Rydym yn cefnogi sefydlu cwmni ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r cyhoedd, ond byddwn yn hoffi cynnwys y gymuned ehangach wrth sefydlu hyn.
- Cefnogi galwadau yn adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig 'Cynllun ar gyfer dyfodol ynni adnewyddadwy Cymru'
- Gweithredu cynllun gweithlu ynni adnewyddadwy i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl Cymru er mwyn i'r diwydiant ffynnu.
- Gwella cyllid ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru oherwydd heb gyllid digonol, ni fydd Sefydliadau Addysg Uwch yma yn gallu cystadlu â Sefydliadau Addysg Uwch mewn mannau eraill i ddatblygu datblygiadau newydd mewn technolegau cynaliadwy.
- Sicrhau bod cyflwyno ynni adnewyddadwy yn gyson â natur er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol.
- Cynyddu a chefnogi prosiectau adnewyddadwy cymunedol, a chaniatáu iddynt werthu ynni yn lleol, fel bod yr elw a'r buddion yn mynd i gymunedau.
- Datblygu a gweithredu ar frys ymrwymiad i Net Sero erbyn 2035, gan gynnwys cynyddu ynni adnewyddadwy.
- Gweithredu cynllun clir ar gyfer ehangu a datblygu gwres carbon isel yng Nghymru.
- Llunio barn ar ddiwygio'r farchnad ynni ochr yn ochr â phartneriaid yng Nghymru, a chyfleu'r casgliadau i Lywodraeth y DU.

Dylai Llywodraeth Cymru ymuno gyda ni yn lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y canlynol-

· Cefnogi Power for People i lobïo San Steffan ar y Bil Trydan Lleol. Pwrpas y Bil yw galluogi generaduron trydan i fod yn gyflenwyr trydan lleol.

4. Ein rhyddhau ni rhag tanwyddau ffosil

Wrth i farchnadoedd nwy byd-eang gynyddu, mae dibyniaeth y DU ar danwydd ffosil drud yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl a busnesau ledled y wlad. Ar yr un pryd, mae'r lwfans buddsoddi yn yr Ardoll Elw Ynni (treth ffawdelw) a bylchau treth eraill yn amddifadu economi'r DU o incwm hanfodol. Mae ymgyrch y DU gyfan yn galw ar lywodraeth y DU i roi'r gorau i agor meysydd olew a nwy newydd, gan gynnwys rowndiau trwyddedu newydd, a rhoi'r gorau i roi cymhorthdal i ddrilio newydd ag arian cyhoeddus. Mae gan Gymru rôl arweiniol i'w chwarae, yn enwedig gan ei bod yn rhan o'r Gynghrair Y Tu Hwnt i Olew a Nwy. Dylai Llywodraeth Cymru geisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i adeiladu cyflenwad ynni adnewyddadwy rhatach a mwy diogel. Rydym angen gweithredu cyson, parhaus gan Lywodraeth Cymru i ddangos arweiniad a sicrhau trosglwyddiad cyfiawn i weithwyr mewn diwydiannau sy'n dibynnu ar lo ar hyn o bryd. Mae angen newid diwylliant arnom hefyd, tuag at hunanddibyniaeth heb danwydd ffosil, perthynas agosach â ffynonellau ein hynni, ac anelu am linellau cyflenwi byr, e.e. gwresogi personol â phren lleol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni'r canlynol:

- Rhoi terfyn ar echdynnu, ymestyn ac ehangu glo yng Nghymru ac ymrwymo i roi feto ar unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ymestyn neu ehangu glo yng Nghymru.

- Peidio â chyhoeddi unrhyw drwyddedau pellach, neu ymestyn trwyddedau ar gyfer nwy neu olew a pharhau â'i wrthwynebiad clir a chynhwysfawr i unrhyw ffracio yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymuno â ni hefyd i lobïo Llywodraeth y DU i gyflawni'r canlynol:

- Sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o gyllid yn seiliedig ar angen, wrth i aelwydydd yng Nghymru gael eu taro galetaf gan yr argyfwng ynni.

- Gosod treth ffawdelw ar gwmnïau olew a nwy ar frys i helpu i ariannu cymorth i'r aelwydydd mwyaf agored i niwed a sicrhau nad yw pobl gyffredin, na'n plant, yn codi'r bil am y symiau sylweddol o arian cyhoeddus sy'n mynd i gwmnïau ynni o dan y Pris Ynni. Cynllun Gwarant.

*Rhagor o wybodaeth am **Cynnes Gaeaf Yma**, cysylltwch â Bethan Sayed ar bethan@climate.cymru ewch i'r wefan neu* Twitter, Instagram & Facebook. #CynnesGaeafYma, #ClimateCymru